

Syniadau arloesol ar gyfer Mis Plannu a Rhannu

Ymddiriedolaeth Fferm Greave House



Tyddyn yw Ymddiriedolaeth Fferm Greave House sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu neu awtistiaeth drwy waith fferm. Wedi'i leoli ar gyrion Sheffield, mae yno ychydig o anifeiliaid, gwenyn, perllan a gardd ffrwythau. Mae'n gwerthu'r bwyd y mae'n ei dyfu ar y tir yn lleol.

Cafodd Ymddiriedolaeth Fferm Greave House grant Dewch at Eich Gilydd bach i gynnal Diwrnod Plannu a Rhannu i groesawu'r gymuned leol ar 1 Mai 2021.

Ysbrydoliaeth gan ddigwyddiad rhithwir Dewch at Eich Gilydd

Ar ôl mynychu digwyddiad rhithwir Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes, cafodd Barbara Bristow, cyd-sylfaenydd Ymddiriedolaeth Fferm Greave House, ei hysbrydoli i gynnal gweithgaredd Plannu a Rhannu.

Wedi cael ei hysgogi a'i chyffroi gan ein hymgyrch ar gyfer y gwanwyn i gysylltu pobl drwy weithgareddau garddio, aeth Barbara ati i gynllunio digwyddiad cymunedol yn yr awyr agored.

"Hwn oedd ein digwyddiad cyntaf ers dros flwyddyn oherwydd y pandemig COVID-19 ... roeddwn yn hyderus bod modd i ni ei gynnal yn ddiogel," meddai.

Trefnwyd y gweithgareddau plannu o amgylch byrddau trestl i roi digon o le ac i greu "awrygylch braf a hamddenol iawn." Llwyddodd tîm Ymddiriedolaeth Greave House a gwirfoddolwyr i helpu tua 20 o bobl i gymryd rhan yn y digwyddiad.

Bynting Hadau

Cafodd Barbara syniad creadigol a mynd ati i osod pecynnau hadau ar ddarn o linyr i greu bynting.



Roedd yn edrych yn dda ac yn groesawgar wrth i bobl ddod i mewn, ond roedd hefyd yn golygu bod modd i bobl sefyll ac edrych arnyn nhw yn hytrach na mynd drwy bob pecyn a'u cyffwrdd ... ac ar ôl dewis un, roedden nhw'n gallu ei rwygo oddi ar y llinyn.



Rhannu Sgiliau Garddio



Croesawyd amrywiaeth o bobl leol sy'n meddu ar ystod eang o sgiliau tyfu bwyd i'r Diwrnod Plannu a Rhannu. Roedd y lleoliad yn berffaith i rannu sgiliau, i greu cyfeillgarwch ac i fagu hyder.

Aeth y rhai mwyaf profiadol ati i ddysgu merch ifanc pa mor ddwfn y dylid plannu hadau moron a dangos i riant sut i hau hadau, gam wrth gam, gan nad oedd wedi gwneud hynny o'r blaen. Llwyddodd bachgen 5 oed i ddefnyddio hadau am y tro cyntaf hefyd i dyfu ei hoff lysieuyn – brocoli!

Cystadleuaeth

Fel rhan o'r digwyddiad, trefnodd Barbara gystadleuaeth ar gyfer y 'Potyn Plannu Gorau'.

“Daeth dwy ferch ifanc â hen bâr o esgidiau cerdded eu nain yr oedden nhw eisoes wedi plannu planhigion ynddyn nhw... roedden nhw'n edrych yn hyfryd, ac yn llawn haeddu'r wobr!”

Rhoddodd y siop frechdanau leol daleb fel gwobr, a rhoddodd Barbara ychydig o addurniadau i'r ardd a phecyn lluosogi ar gyfer y silff ffenestr.

O Hadau i Gawl

Fe wnaeth Barbara rannu cardiau ryseitiau hefyd er mwyn i bobl allu coginio pryddau iach a blasus gyda'r cynhwysion roedden nhw wedi'u tyfu. Bu'n rhaid iddi lungopio mwy ohonyn nhw gan eu bod mor boblogaidd!

Sylwodd Barbara fod y syniad newydd hwn o ddsbarthu cardiau ryseitiau gyda hadau yn hytrach na chynhwysion yn helpu pobl i wneud y cysylltiad â tharddiad bwyd.



Ceisiais ddod o hyd i rysáit ar gyfer pob hedyn fel bod pobl yn gallu mynd ag amrywiaeth o ryseitiau adref gyda nhw.



Ar un o'r cardiau rysáit a rannwyd gyda hadau pwmpen roedd dau rysáit ar gyfer mathau gwahanol o gawl pwmpen. Coginiodd Chris, gŵr Barbara, y cawl pwmpen sbeislyd a'r cawl pwmpen wedi'i rhostio a garleg ar stôf wersylla. "Roedd cyfle i bawb flasw'r cawl gyda darn o fara, ac i fynd â'r rysáit adref os oedden nhw'n ei hoffi." Defnyddiwyd pwmpenni a dyfwyd ar y tir i wneud y cawl, a rhannwyd y rysáit unwaith eto ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod yr Hydref.

Y gobaith oedd ysbrydoli pobl i leihau gwastraff bwyd tra'n dathlu Calan Gaeaf, "er mwyn i bobl roi cynnig ar flasw cawl pwmpen, ac os oedden nhw am gerfio pwmpen, eu bod yn cadw'r canol i wneud cawl yn hytrach na'i daflu."

Aeth un teulu ati i wneud y ddau gawl gyda phwmpenni a dyfwyd ganddyn nhw o'r hadau a'i rannu ar dudalen yr Ymddiriedolaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

Greave House yn parhau i dyfu

Ers y Diwrnod Plannu a Rhannu, mae Ymddiriedolaeth Fferm Greave House yn parhau i gysylltu â'r bobl leol drwy'r dudalen cyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd wedi sefydlu troli lysiau ac yn gobeithio cynnal sesiynau coginio gan ddefnyddio cynnyrch cartref mewn cegin symudol sydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol.

Y gobaith yw cael pobl i ymddiddori mwy mewn tarddiad bwyd drwy gynnal sesiynau coginio gyda'r cynnyrch a dyfwyd gartref mewn cegin symudol wedi'i hadeiladu'n bwrpasol.

